# papur priordy



**Dowch allan, ddynion, o'r tai cyngor cyn**
**Gwasgar y cwning, dowch gyda'r wenci i weled**
**Codi o'r ddaear afrlladen ddifrycheulyd**
**A'r Tad yn cusanu'r Mab yn y gwlith gwyn.**

**Saunders Lewis**

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 366**
**PAPUR MAI 2023**

## Gair gan ein Gweindiog

### Dysgu oddi wrth ein gilydd

***ROEDD*** yn werth codi am 3 y bore i ddal yr awyren i Amsterdam! Bûm yno am dridiau ddiwedd Ebrill fel un o gynrychiolwyr Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cyfarfod o Eglwysi Ewrop o Gyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (CWM) i drafod eu cenhadaeth.




Mae pump o Eglwysi'n perthyn i ranbarth Ewrop o CWM: yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC), y Gynghrair Gynulleidfaol (Congregational Federation), Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Daeth cynrychiolwyr o'r pum Eglwys ynghyd i Amsterdam i drafod ac i ymweld â phrosiectau ar wahoddiad Eglwys Brotestannaidd yr Iseldiroedd. Bu'r tridiau'n rhai gwerthfawr iawn.

**Eglwys Betondorp**
Profiad cofiadwy oedd ymweld ag eglwys newydd a blannwyd yng nghanol stâd o adeiladau concrid yn Betondorp a gwrando ar y gweinidog, Margreitha Reinders, yn sôn mewn ffordd naturiol a chynnes am ei phrofiad o blannu eglwys newydd mewn ardal lle nad oes gan bobl bellach unrhyw gysylltiad â Duw. Mae'r eglwys yn cyfarfod mewn canolfan gymdeithasol a'i gweledigaeth yw bod modd gweld bywyd a blagur yn ffynnu o goncrid. Clywyd tystiolaeth gan Margreitha bod y sawl a ddaeth i gwrdd yn yr eglwys newydd hon yn nerfus iawn ar y cychwyn, a chyffyrddiad hyfryd oedd ei chlywed yn uniaethu'r nerfusrwydd hwnnw â'r sawl a welodd Iesu wedi ei atgyfodiad, a heb wybod pwy ydoedd, tan iddynt ddod i adnabod y Crist byw yn raddol. Calondid oedd clywed bod yr eglwys draddodiadol wedi cefnogi'r model newydd hwn o eglwys. Dyma fodel i'w gofio wrth i ni ystyried ein dyfodol.

**Etifeddiaeth Caethwasiaeth**
Ni ellir ymweld ag Amsterdam heb fynd mewn cwch ar y gamlas! Gwerthfawrogwyd yn fawr fod taith felly wedi ei threfnu ar ein cyfer, yng nghwmni'r hanesydd diwylliannol Jennifer Tosch. Hi yw sylfaenydd y 'Black Heritage Tours' yn Amsterdam a rhannodd â ni o'i

gwybodaeth helaeth am gysylltiad hanesyddol caethwasiaeth â'r ddinas. Fe'n croesawyd hefyd i'r Amgueddfa Lutheraidd am drafodaethau pellach.

**Newyddion**
Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle hefyd i glywed adroddiadau gan Eglwysi CWM Ewrop. Roedd clywed am gymaint y maent yn ei gyflawni yn codi'r galon. Hawdd iawn i ni feddwl ein bod yn syrthio i gyflwr enbyd o ddirywiad a bod popeth a wnawn yn methu. Yr un yw'r heriau ym mhob gwlad a thraddodiad eglwysig, ond braf oedd cael cyfle i agor ein meddyliau ac i weld sut y gallwn wynebu'r heriau drwy ddysgu oddi wrth ein gilydd.

**Prosiectau CWM**
Ychwanegwch areithiau gan gyfeillion o Eglwys Amsterdam, ynghyd ag araith gan Y Parchg Ddr Jooseop Keum, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM a soniodd am y Prosiect Onesimws a lansiwyd ym mis Awst 2022. Dangosodd fel y mae'r Prosiect yn cynorthwyo'r Cyngor i hunanfyfyrio wrth drafod caethwasiaeth yn ei gyd-destun hanesyddol a chyfoes ac i ddirnad o'r newydd ei chenhadaeth o gyfiawnder a thegwch heddiw.

Ychwanegwch sesiwn ar 'Life Flourishing Mission', defosiwn bendithiol, trefniadau ardderchog a chwmni da, a do, bu'n dridiau gwerth chweil a bendithiol iawn.

***DA*** oedd cael bod yno. Diolch am y fraint o gael eich cynrychioli.



**Gweddi gan Gymorth Cristnogol 2023**

**Gweddïwn**

Ewch i mewn i'r byd
yn cydweithio dros newid
fel y gall pawb ffynnu
a rhannu bywyd yn ei gyflawnder.
Ac yn y cyfan a wnawn gadewch inni ddangos cariad Iesu.
Gadewch inni drin pawb gydag urddas.
Gadewch inni sefyll dros gydraddoldeb.
Gadewch inni ymladd dros gyfiawnder
Bydded i Dduw gobaith eich llenwi gyda llawenydd a heddwch wrth gredu,
fel y byddwch yn gorlifo gyda gobaith
trwy rym yr Ysbryd Glân.

**Amen**

BYW Y BEIBL

## DARLLENIADUR

BYW Y BEIBL

| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Ioan 14:1-14 |
| Wythnos 2 | Ioan 14:15-21 |
| Wythnos 3 | Ioan 17: 1-11 |
| Wythnos 4 | Ioan 20: 19-23 |

**DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**NANSI HAYES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**CYRDDAU PREGETHU**

**CANA**

**Nos Fercher**
**10 Mai 2023 am 7**
***Swper i ddilyn***
**Pregethwr Gwadd**
**Y Parchedig**
**Jill-Hailey Harries**



**BANCYFELIN**



**Nos Iau**
**18 Mai 2023 am 7**
***Swper i ddilyn***
**Pregethwr Gwadd**
**Y Bonwr**
**Ifan Gruffydd**
**Tregaron**



**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**


**17 Mai 2023**

**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**
***(Bydd rhaid i bob un brynu ei goffi ei hunan )***

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

# HEULWEN DAN GYMYLAU

Un o nodau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yw cynorthwyo eglwysi i geisio troi'n eglwysi dementia-gyfeillgar. A wyddech chi fod dros 850,000 o bobl yng ngwledydd Prydain yn byw gyda dementia? Ffigyrau'r Gymdeithas Alzheimer yw'r rhain. Mae yna ragweld hefyd y bydd hyn yn cynyddu i filiwn erbyn 2025 a hyd yn oed ddwy filiwn erbyn 2050.




Yn ystod cyfarfodydd blynyddol yr Undeb yng Nghaerfyrddin yn 2022 lansiwyd **Heulwen dan Gymylau**, sef llawlyfr pwysig i gydfynd â'r ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar.

Cafodd y prosiect ei ysgogi gan Adran Dinasyddiaeth Gristnogol yr Undeb a Gweithgor dan Gyfundeb Dwyrain Morgannwg,dan gadeiryddiaeth Emlyn Davies, Cadeirydd yr Adran Dinasyddiaeth, fu'n gweithio arno gyda chymorth nifer o asiantaethau a sefydliadau sy'n amlwg yn y maes.

Beth am fwrw golwg brysiog dros gynnwys y Llawlyfr?

Prif ddiben y Llawlyfr yw codi ymwybyddiaeth o gyflwr dementia ymhlith aelodau ein heglwysi ac yna annog eglwysi i geisio cefnogi aelodau a'u teuluoedd ble mae dementia'n bodoli. Mae ystyriaeth bwysig yn cael ei rhoi i anghenion ysbrydol y bobl sy'n byw gyda dementia ac i drafod sut y gall eglwysi ymateb iddynt.

Rhennir y Llawlyfr yn chwe adran:

Yn yr adran gyntaf mae'r Parchedig Beti-Wyn yn trafod seiliau diwinyddol eglwys ddementia-gyfeillgar. Mae'n esbonio mor bwysig yw hi i eglwysi ymateb i anghenion y person cyfan sy'n byw gyda dementia– yn ysbrydol yn ogystal ag yn gorfforol.

Ymateb i'r angen ysbrydol yw'r elfen 'ychwanegol' y mae eglwysi'n gallu ei wneud o gymharu â sefydliadau eraill. Mae'r adran hon yn mynd rhagddi i drafod beth yw'r elfennau ychwanegol y gall eglwysi eu cynnig ar gyfer pobl a'u teuluoedd, gan gynnwys datblygu addoliad dementia-gyfellgar.

Yn yr ail adran tyfu'n eglwys dementia-gyfeillgar sydd dan ystyriaeth. Caiff eglwysi eu hannog i ystyried pa mor ddementia-gyfeillgar maen nhw ar hyn o bryd a sut y gallant ddatblygu er mwyn tyfu'n fwy dementia-gyfeillgar. Mae'n cynnwys rhestr gryno o brif arwyddion dementia a sut mae ymateb iddynt.  Defnyddiol yn yr adran hon yw'r ymarferion hunan-asesu yn ymwneud â phedair agwedd - adeiladau, gofal bugeiliol, oedfaon a gweithgareddau a rhwydweithau cymunedol – sy'n help i eglwysi bennu pa dasgau y dylent roi blaenoriaeth iddynt er mwyn tyfu'n fwy dementia-gyfeillgar.

Yn y drydedd adran ceir patrymau ar gyfer oedfaon. Trafodir beth yw oedfa ddementia-gyfeillgar a chynhwysir yr enghreifftiau canlynol: Oedfa Sul y Blodau, Oedfa Gwener y Groglith, Oedfa Sul y Pasg, Oedfa Gŵyl Ddiolchgarwch, Oedfa ar Thema: Goleuni, Oedfa ar Thema: Dwylo, Oedfa ar Thema: Adnabod a Dwy Oedfa Gymun Gartref.




Yn y bedwaredd adran trafodir fel y mae gwrando ar gerddoriaeth yn gallu cynnig cysur a mwynhad i lawer sy'n byw gyda dementia. Esbonir hefyd fel y mae cerddoriaeth yn gallu bod yn gyfrwng i atgyfnerthgu ffydd, yn foddion gras o fewn addoliad ac yn cadarnhau a chryfhau perthynas â Duw.  Ceir awgrymiadau ynghylch y defnydd o gerddoriaeth yn y cartref ac yn y capel, gan nodi arfer dda. Rhestrir cryno-ddisgiau o emynau a chaneuon poblogaidd.

Yn y bumed adran ceir manylion cwrs ffrindiau Dementia. Trafodir beth yw ffrind dementia a sut mae dod yn ffrind dementia.

Yn y chweched adran mae Rhestr o Sefydliadau ac Elusennasu, Adnoddau Digidol Cymraeg, Llyfrau Ffeithiol ar Ddementia a Chyfres Darllen yn Well, ynghyd ag Adnoddau Pellach.

Mae'r ffilm fer sy'n trafod Dementia (gweler Teledu Annibynwyr) yn gymorth i ni werthfawrogi pwysigrwydd addoli a chanu mawl i'r sawl sy'n byw gyda'r cyflwr.  Mae 'Heulwen Dan Gymylau' hefyd i'w gael bellach ar y we gyda chanllawiau a chyfarwyddyd i eglwysi gynnwys pobl sydd yn byw gyda dementia yn llawn ym mywyd yr eglwys.

Llawlyfr sy'n esblygu yw hwn a'r Gweithgor yn parhau i ychwanegu at y deunydd - boed mewn print neu'n ddigidol - a'i chyfoethogi.

Mae copi o'r Llawlyfr gwerthfawr a chynhwysfawr hwn gan bob eglwys sy'n perthyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Gobeithio y byddwn ninnau yn yr Ofalaeth yn manteisio ar y cyfle i droi ato er mwyn gweld sut y gall ein heglwysi ni droi'n fwy dimensiwn gyfeillgar.




**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**

**NOS SUL, 24 MEDI 2023 am 5**
**CAPEL PENYGRAIG, CROESYCEILIOG**

**Arweinydd**
**Meinir Richards Llanddarog**

**Rihyrsals yng Nghapel Penygraig dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 16 Gorffennaf am 5 a Nos Sul, 10 Medi am 5**

***Bydd yr emynau o Raglen Cymanfaoedd Canu 2022-2023. Pris y Rhaglen yw £2 (Hen Nodiant / Sol-Ffa). Os ydych yn dymuno derbyn rhaglen a wnewch chi roi gwybod i Huw Michael mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.***

# *PANED A SGWRS*

# *MIS EBRILL*










**RHAGHYSBYSIAD**





**Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth**

**Dydd Sul 15 Hydref 2023**


**Tafarn y New Cross, Dryslwyn**

**12.30 (yn brydlon) ar gyfer bwyta am 1.00**

***Mwy o fanylion i ddod***

---

**CYNHYRCHIAD THEATRAU SIR GÂR**
**GOLYGFEYDD O'R PLA DU**
***gan***
**Chris Harris**
***Ar daith - Mai 2023***
**Lyric Caerfyrddin**
**Nos Wener - 26.05. 2023 - 7.30**
**Cyswllt: 0345 226 3510 / theatrausirgar.co.uk**
***Comedi direidus, tywyll am argyfwng a llygredd***




---

**BORE COFFI**
**Stondin Grefftau… Raffl**

**DYDD MERCHER 17 Mai 2023 – 10.30-12**

**Capel Wesle, Caerfyrddin**

**CWLWM MONDWLI**
***CYSWLLT CAERFYRDDIN – TANSANIA***





---

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?**
**Trowch at: cyfundeb.com**



# WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL
## *14-20 Mai 2023*

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar draws y Deyrnas Unedig, gan elusen Cymorth Cristnogol i godi arian.

Mae Cymorth Cristnogol yn elusen sy'n gweithio gyda 700 o sefydliadau lleol o fewn 50 o wledydd yn y byd. Maent yn helpu cymunedau tlawd i ddelio gyda'u bywydau caled, newid yn yr hinsawdd a bygythiadau posib am drychinebau naturiol. Law yn llaw â hyn, mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cymorth gydag addysg, glanweithdra, iechyd a chymodi rhwng cymunedau penodol.

Dechreuodd Cymorth Cristnogol ym 1957, gyda'r bwriad o annog ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac arweiniodd hyn i'r elusen fabwysiadu'r enw Cymorth Cristnogol ym 1964. Y bwriad yn y 60au oedd gwneud pobl yn ymwybodol o fygythiad o ddiffyg bwyd a'r posibilrwydd o newyn.


Eleni mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn canolbwyntio ar gyflwr sychder sy'n wynebu nifer o wledydd ar draws y byd. Mae sychder yn gyflwr mwy dwys a chyffredin oherwydd newid hinsawdd. Mae'n dylanwadu ar boblogaeth y byd yn enfawr ac yn golygu fod pobl o gwmpas y byd yn wynebu trafferth i gael y bwyd a'r dŵr sydd eu hangen arnynt.

**Am ragor o wybodaeth**
**Y Parchedig Tom Defis**
**tdefis@cymorth-cristnogol.org**

**Urddas, Cydraddoldeb, Cyfiawnder, Cariad**

*Gallwch ddefnyddio'r amlen sydd ym Mhapur Priordy'r mis hwn os ydych yn dymuno rhoi rhodd i Gymorth Cristnogol. Mae hefyd amlenni ar gael yn y capel i'r sawl sy'n derbyn y Papur yn ddigidol.*

## Anrhegion Cymorth Cristnogol yn helpu pobl Malawi i blannu pys colomennod sy'n gallu gwrthsefyll sychder a chynnig, o ganlyniad, ffordd allan o dlodi i filoedd o bobl




Mae gan Jen ddwy acer o bys colomennod ond mae'n ymdrechu gydag effeithiau'r argyfwng hinsawdd. Mae'r glaw yn annibynadwy, ac mae mwy o stormydd, llifogydd a gwyntoedd cryf.

**Llais 1:** Mae'r caeau wedi eu difrodi: mae'r ddaear yn galaru.

**Llais 2:** Mae'r grawn wedi ei ddinistrio, y gwin wedi rhedeg yn sych, yr olew wedi methu.

**Llais 3:** Anobeithiwch, chwi ffermwyr, udwch, chwi winllanwyr, dros yr ŷd a'r barlys;

**Llais 1 a 2:** Mae cnydau'r maes wedi methu.

**Llais 3:** Mae'r gwinwydd wedi crino, y ffigysbren wedi gwywo. Pomgranadau, datys, ac afal - mae holl goed y maes wedi crino.

**Llais 1 a 2:** Mae llawenydd y bobl wedi gwywo hefyd.

Mae Jen yn dal pys colomennod yn ei dwylo. Mae'r pys bach, gwylaidd hyn yn llawn daioni all newid bywydau.

**Llais 1:** Wedyn dyma'r ARGLWYDD yn dangos ei sêl dros y wlad. Buodd yn drugarog at ei bobl.

**Llais 2:** Dyma fe'n dweud wrth ei bobl: "Edrychwch! Dw i'n mynd i'ch bendithio chi unwaith eto! Dw i'n mynd i roi cnydau da i chi, a digonedd

o sudd grawnwin ac olew olewydd. Bydd gynnoch chi fwy na digon! Fyddwch chi ddim yn destun sbort i'r gwledydd o'ch cwmpas chi.

**Llais 1:** Ti ddaear, paid bod ag ofn! Gelli ddathlu a bod yn llawen, am fod yr ARGLWYDD yn gwneud pethau mor wych!

**Llais 2:** Anifeiliaid gwyllt, peidiwch bod ag ofn! Mae glaswellt yn tyfu eto ar y tir pori,

**Llais 3:** ac mae ffrwythau'n tyfu ar y coed. Mae'r coed ffigys a'r gwinwydd yn llawn ffrwyth.

**Llais 1:** Dathlwch chithau, bobl Seion! Mwynhewch beth mae Duw wedi'i wneud!

**Llais 2:** Mae wedi rhoi'r glaw cynnar i chi ar yr adeg iawn – rhoi'r glaw cynnar yn yr hydref, a'r glaw diweddar yn y gwanwyn, fel o'r blaen.

**Llais 3:** Bydd y llawr dyrnu yn orlawn o ŷd, a'r cafnau yn gorlifo o sudd grawnwin ac olew olewydd.

**Llais 1:** Bydda i'n rhoi popeth wnaethoch chi ei golli yn ôl i chi – popeth wnaeth y locustiaid ei fwyta; y fyddin fawr wnes i ei hanfon yn eich erbyn chi.

**Llais 2:** Bydd gynnoch chi fwy na digon i'w fwyta. Byddwch chi'n moli'r ARGLWYDD eich Duw, sydd wedi gwneud pethau mor wych ar eich rhan chi.

**Llais 1 a 3:** Fydd fy mhobl byth eto'n cael eu cywilyddio

**GWASANAETH CARTREF PLAS Y DDERWEN**

**Prynhawn Gwener – 16 Mehefin 2023 – 2 o'r gloch**

***gyda'n***

**Gweinidog**

**Croeso i bawb**



# I GOPA BRYN MYRDDIN



**Mwynwen Jones…**



## Pererindod y Groglith
## i Gopa Bryn Myrddin

***RHAID*** dweud na ellid fod wedi dewis gwell diwrnod ar gyfer pererindod blynyddol yr ofalaeth i gopa Bryn Myrddin yn Abergwili. Daeth cynulleidfa arbennig o dda ynghyd ar gyfer y daith ac mae'n debyg bod yna nifer uwch wedi ymuno eto eleni.

Croesawodd ein gweinidog Beti-Wyn bawb ynghyd yn gynnes gan ddiolch i Lyn Jones am baratoi'r groes eto eleni ac fe gafodd rhai o'r plant heini'r dasg o'n harwain a chario'r groes i fyny'r bryn. Roedd yr olygfa o'r groes ar gopa Bryn Myrddin yn ddarlun hynod bwerus.



Cafwyd gweddi agoriadol gan Beti-Wyn ac yn addas iawn, cydganwyd yr emyn cyntaf '*Wrth edrych, Iesu, ar y groes*'. Darllenodd y Parchedig Emyr Gwyn Evans hanes marwolaeth ddirdynol Iesu ar y groes yn ôl yr Efengyl Mathew.

Fe wnaeth Beti-Wyn annerch y plant a thrafod stori'r Pasg â nhw a'u holi a oedden nhw wedi sylwi ar rywbeth arbennig sydd ar gefn asyn. Croes oedd yr ateb ac mae yna sôn bod y groes wedi gadael ei chysgod ar gefn yr asyn. Gobaith Beti-Wyn oedd bod siâp y groes yn gadael ei farc ar ein cefnau ni heddiw fel pobl.

Aeth ymlaen wedyn i ddyfynnu cerdd gan Alys Evans o Bwll-trap, 'Pe bawn i':

Pe bawn i ar fryn Calfaria
Pan oedd Iesu'n dioddef cur
A bloeddiadau'r dorf fel eco
I guriadau'r offer dur,

Ni fuaswn wedi cefnu
Fel y deuddeg namyn un;
Cyd-ddioddef wnawn â Iesu,
Nid ei adael wrtho‘i hun
Pe bawn i’n y ddinas sanctaidd
Fore’r Atgyfodiad mawr,

Buaswn i yng nghwmni’r gwragedd
Wrth y bedd, ar doriad gwawr;
Gweld fy Ngheidwad wnâi i ‘nghalon
Glwyfus roi angerddol lam
O orfoledd, am i Iesu
Drechu’r bedd a maddau’r cam.

Ond ofer meddwl am y Groglith trist
Os na rof fi fy heddiw’n llwyr i Grist,
Ac ofer cofio’r Trydydd Dydd a’i fri
Os nad oes cyffro’n awr yn f’enaid i.

Estynnodd Beti-Wyn weddi i Dduw gan ddiolch am Iesu Grist, ei ddyfodiad, ei aberth, ei atgyfodiad a’i bresenoldeb sanctaidd gan ymbil arno i’n cadw ninnau rhag anghofio bod ‘Yr hwn a’n prynodd ar y groes yn deilwng o bob awr o’n hoes.’

Cydganwyd ‘*Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb’*, yn addas iawn ar y dôn Bryn Myrddin.



***DYCHWELODD*** pawb i fwynhau paned ac ambell gacen nôl yn Nghanolfan Bryn Myrddin.

**Beth am droi at**

**Wefan yr Undeb?**

**www.annibynwyr.org**

**?? CWIS Y SALMAU ??**

**Pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau? Yn hytrach, pa mor dda ydych chi'n 'nabod y salmau yn fersiwn beibl.net?!!!!**

**Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu! Pob lwc!!**

## SALM 98

**Canwch gân ----- i'r Arglwydd.**
**Am ei fod wedi gwneud pethau anhygoel!**
**Mae ei fraich gref, wedi ennill y fuddugoliaeth iddo.**
**Mae'r ------- wedi dangos ei allu i achub!**
**Mae wedi dangos i'r cenhedloedd ei fod yn --- cyfiawn.**
**Mae wedi cofio'i gariad a'i ffyddlondeb i bobl ------;**
**ac mae pawb drwy'r byd i gyd wedi gweld Duw yn achub.**


**Dewch, bawb drwy'r --- i gyd,**
**Gwaeddwch yn uchel i'r Arglwydd!**
**Gweiddi'n llawen, a chanu mawl iddo!**
**Canwch fawl ar y delyn i'r Arglwydd;**
**canwch gân hyfryd i gyfeiliant y -----!**
**Seiniwch yr utgyrn a chwythu'r corn hwrdd.**
**Dewch, bawb drwy'r byd i gyd,**
**gwaeddwch yn uchel i'r Arglwydd, y ------!**

**Boed i'r môr a phopeth sydd ynddo weiddi;**
**a'r byd hefyd a phawb sy'n byw ynddo.**
**Boed i'r ------ guro dwyo,**
**ac i'r mynyddoedd ganu'n -----gyda'i gilydd**
**o flaen yr Arglwydd!**
**Achos mae e'n dod i roi trefn ar y ddaear.**
**Bydd e'n barnu'r byd yn hollol ---,**
**a'r bobloedd yn gwbl gyfiawn.**

**Atebion ar Dudalen 27**

## GWASANAETH PASG
## CARTREF PLAS-Y-DDERWEN














***Gweler Tudalen 23!***



# BORE SUL Y PASG YN Y PRIORDY














# IFANC@PRIORDY

## Yr Urdd

Mae nifer ohonoch yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sydd yn cael ei chynnal yn Sir Gâr eleni! Pob hwyl i bawb gyda'r gwaith paratoi ac i bawb a fydd yn cystadlu. Welwn ni chi ar y maes yn Llanymddyfri.

## Pabell yr Ysgolion Sul



Fe fydd pabell gan yr Ysgolion Sul ar faes Eisteddfod yr Urdd. Galwch draw i'n gweld. Fe fydd criw Caerfyrddin yn gofalu am y babell ar y dydd Mercher.

## Sul, Mai 14

Fe fydd Maer Tref Caerfyrddin, y Cynhorydd Wyn Thomas yn ymuno â ni yn ein cwrdd teulu ar 14 Mai. Dewch i gwrdd ag ef.

### Tomos a'i gamera



Mae Tomos Huw yn gwneud ychydig o waith digidol gwirfoddol gyda ni yn Y Priordy fel rhan o'i wobr Dug Caeredin. Diolch iddo am greu'r cwis Pasg gwych. Fe fydd Tomos yn tynnu lluniau o ddigwyddiadau'r eglwys dros y mis nesaf

## Suliadur Mai



Mai 7 – Ysgol Sul. PIP ar daith
Mai 14 - Cwrdd Plant a phobl ifanc yng nghwmni'r Maer
Mai 21 – Ysgol Sul
Mai 29 – Dim Ysgol Sul
Mehefin 4 – Ysgol Sul

## Oedfa Eisteddfod yr Urdd

Pob hwyl i'r plant a fydd yn cymryd rhan yn oedfa Eisteddfod yr Urdd. Byddwch wych!

# Chwilotair Llythyren 'L'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | L | S | U | R | A | S | A | L | P | L | I | A | L |
| L | C | A | S | A | L | E | S | E | I | O | A | A | E |
| A | S | O | S | H | I | A | L | A | M | I | A | A | F |
| A | A | A | L | P | C | O | B | L | I | S | A | T | I |
| O | I | L | L | A | I | E | D | A | A | U | N | O | T |
| E | N | D | R | A | N | B | M | S | N | I | L | L | I |
| L | A | O | D | I | C | E | A | A | L | Y | Y | I | C |
| L | S | S | A | L | Y | M | Y | F | L | I | L | A | U |
| Y | Y | L | L | E | P | I | A | A | D | A | A | T | S |
| S | L | L | C | F | L | M | L | L | L | P | I | T | H |
| I | L | U | A | I | I | Y | A | A | L | A | I | A | A |
| A | A | C | I | A | N | I | D | L | O | O | A | S | A |
| S | S | N | S | I | U | O | C | I | S | I | A | A | L |
| S | I | S | I | D | S | S | A | T | A | S | D | E | L |

LABAN
LEFITICUS
LOT
LYSIAS
LINUS
LOIS
LAMP

LASARUS
LAODICEA
LEFIAID
LYSANIAS
LUC
LYDIA
LAMECH

Hwyl fawr tan tro nesaf,
*Beti-Wyn*



## TYSTIOLAETHU YM MHENTREF PANCYFELIN







**DYCHWELYD I BLAS Y DDERWEN**!



***O'R DIWEDD***, ar ôl seibiant go hir dros y pandemig, daeth cyfle i aelodau'r Ofalaeth ailymuno â Beti-Wyn yng Nghartref Gofal Plas-y-dderwen i gynnal gwasanaeth a chymdeithasu.

Go brin y gellid meddwl am well adeg na throthwy'r Pasg i ailgysylltu fel hyn. Wedi'r cyfan, onid yw'r Pasg yn symbol o fywyd a gobaith newydd?!

Gŵyl bwysicaf Cristnogaeth yw'r Pasg ac olrhain y digwyddiadau a



arweiniodd at atgyfodiad Iesu ar ddiwedd yr Wythnos Sanctaidd wnaeth Beti-Wyn yn ei myfyrdod, gan ddangos fel y troes casineb yn gariad, tywyllwch yn oleuni a thristwch yn llawenydd. Daliodd ddychymyg y trigolion wrth wneud hynny mewn sawl ffordd, gan gynnwys ambell dric gyda phapur!

Roedd hwyl ar y canu gyda Heather Williams wrth y piano. Canwyd emynau wrth fodd y gynulleidfa – *O'r fath geidwad rhyfeddol yw Iesu, Calon Lân, I will sing the wondrous story, To God be the glory / O berffaith achubiaeth, mor ddrud*. Cawsom ddarlleniad o'r Beibl a gweddi berthnasol.

Dilynwyd y wledd hon gan wledd arall! Yn ogystal â phaned o de, cawsom fwynhau cebabau ffrwythau a theisennau wrth gymdeithasu! Mae'n diolch yn fawr i'r Cartref, yn arbennig Lisa Peart, Cydgysylltydd Gweithgareddau. am y croeso a'r trefniadau trylwyr. Diolch hefyd i aelodau'r Ofalaeth am bresenoli.

***MAE HI'N*** anodd credu fod Beti-Wyn wedi bod yn cynnal gwasanaethau ym Mhlas-y-dderwen ers dros ugain mynledd erbyn hyn! Aeth llawer o ddŵr dan y bont yn hanes ein bywydau dros y cyfnod hwn ond erys gwir angen o hyd i Gristnogion geisio cynnal sesiynau addoli a chymdeithasu mewn mannau fel hyn nad ydynt o anghenraid yn perthyn i'r eglwys. Diolch i'n Gweinidog am ei harweiniad.

**NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA**

**URDD GOBAITH CYMRU – 18 MAI 2023**

Bob blwyddyn ers 1922 mae pobl ifainc Cymru yn anfon Neges o heddwch i bobl ifainc dros y byd.  Dyma'r unig neges o'i math yn y byd!




Eleni, mae'r Neges yn ffocysu ar wrth-hiliaeth. Mae'n datgan **nad oes lle i hiliaeth yn y byd,** ac os ydym yn ei weld, rhaid **Galw Nhw Allan.**

Ym mis Ionawr 2023 cafwyd gweithdy yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd er mwyn creu'r neges.

Cydweithiodd grŵp o fyfyrwyr o Brifysgol Caerdydd i greu'r neges, gyda chymorth y cerddor Eädyth, Swyddog Cynnwys Addysg S4C, Natalie Jones, a Sunil Patel o No Boundaries.



Mae'n alwad gan ieuenctid Cymru i weithredu'n uniongyrchol i:

- Datgymalu camwahaniaethu systemig
- Herio rhagfarnau diarwybod
- Galw allan hiliaeth pan welwn ni hi bob amser.

Fel rhan o'r neges, mae'r Urdd yn darparu pecyn addysg ar thema gwrth-hiliaeth. Rhennir rhennir ffilm fer hefyd ar holl sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Urdd er mwyn lledaenu'r neges ar draws y byd.

# GALW.NHW.ALLAN

**Agor dy lygaid**
**Mae'n bryd torri lawr hiliaeth systemig,**
**a sylweddoli**
**bod hiliaeth yn dal i fodoli.**

**Casineb o gwmpas y ffordd da ni'n edrych**
**a dim digon o barch i'n gwahaniaethau a'n prydferthwch,**
**gwahaniaethau sy'n plethu mewn undod, gyda'n hunaniaeth**
**a'n Cymreictod.**
**Ond rydyn ni angen gweld cynrychiolaeth deg**
**yn ein hysgolion..**
**yn ein swyddi..**
**yn ein cymdeithasau..**
**ar draws y byd.**

**Felly, galwn allan er mwyn i'r lleisiau gael eu clywed.**
**Galwn allan am lefydd saff i adeiladu cymunedau newydd.**
**Galwn allan i godi ymwybyddiaeth**
**dros ein ffrindiau a'u cefndiroedd.**
**Mae'n hen bryd i'r agwedd tuag at liw ein croen newid.**

**Mae angen i ni annog caredigrwydd**
**ac addysgu**
**i dderbyn a gwella perthynas rhyngddom**
**ni a phawb.**

**Does dim lle i sylwadau hiliol.**
**Os dach chi'n eu clywed, mae'n rhaid**
**Galw. Nhw. Allan.**
**Does dim lle i ragfarnau.**
**Os da chi'n eu clywed, mae'n rhaid**
**Galw. Nhw. Allan.**

## Dydd Iau Dyrchafael



Mae Dydd Iau Dyrchafael neu Difiau Dyrchafael yn ŵyl eciwmenaidd Gristnogol sy'n cael ei dathlu union 40 diwrnod yn dilyn Sul y Pasg, ac ar Ddydd Iau bob amser yn y chweched wythnos wedi'r Pasg. Fe'i dethlir gan y rhan fwyaf o eglwysi Cristnogol ar y dydd hwn. Mae'r Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr fel arfer, yn dathlu ar y dydd Sul canlynol. Yng ngwledydd Sgandinafia, yr Iseldiroedd a'r Almaen, mae'r plant ysgol yn cael diwrnod o wyliau ar Ddydd Iau Dyrchafael

Dyw Dydd Iau Dyrchafael ddim bob amser yn derbyn yr un sylw ag achlysuron cofio geni, marw ac atgyfodi Iesu.

Mae'n ŵyl pwysig ac arwyddocaol, serch hynny, sy'n coffáu Iesu'n gadael y byd hwn a'i ddisgyblion - ond yn gwneud hynny fel Arglwydd a Gwaredwr byw. Caiff yr hanes ei adrodd ar ddiwedd Efengyl Luc a dechrau Llyfr yr Actau.

Cyn i Iesu ddyrchafu, rhoiodd gyfarwyddiadau arbennig i'w ddisgyblion. Meddai yn Efengyl Mathew 28: 19-20:


**'*Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblon o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.'***

Mae Iesu yn rhoi gorchymyn i'w ddisgyblion ledaenu neges yr Efengyl ac yn addo'i bresenoldeb parhaol neu rodd yr Ysbryd i'w harfogi â nerth. Testun llawenydd i'w ddisgyblion ac i bob un ohonon ni heddiw yw gwybod na fydd Iesu byth yn ein gadael. Mae'n fyw a phob amser ar gael.

Difiau Dyrchafael yw un o gerddi mawr Saunders Lewis. Nid unrhyw fore Mai sydd dan sylw ganddo yn y gerdd ond y diwrnod a benododd yr Eglwys i ddathlu o flwyddyn i flwyddyn esgyniad Iesu i'r nefoedd, Mae'n fore cynnar, yn fore disgwylgar, a byd natur fel pe bai wedi'i

drawsffurfio i adlewyrchu'r ymdeimlad o ddefosiwn y mae'r dydd hwn a'i arwyddocâd yn ei hawlio. Fel yr awgryma'r pennill olaf a'r un sydd ar dudalen blaen y Papur hwn, mae'r gweddnewidiad boreol hwn o fewn cyrraedd pob un ohonom - beth bynnag yw ein hynt a'n helynt – 'sy'n barod i ymdrafferthu er mwyn ymglywed â'i rin.'

**Beth sydd ymlaen fore o Fai ar y bronnydd?**
**Edrychwch arnynt, ar aur y banadl a'r euron**
**A'r wenwisg loyw ar ysgwyddau'r ddraenen**
**Ac emrallt astud y gwellt a'r lloi llonydd;**




**Gwelwch ganhwyllbren y gastanwydden yn olau,**
**Y perthi'n penlinio a'r lleian fedwen fud,**
**Deunod y gog dros ust llathraid y ffrwd**
**A'r rhith tarth yn gwyro o thuser y dolau:**


**Dowch allan, ddynion, o'r tai cyngor cyn**
**Gwasgar y cwning, dowch gyda'r wenci i weled**
**Codi o'r ddaear afrlladen ddifrycheulyd**
**A'r Tad yn cusanu'r Mab yn y gwlith gwyn.**

| CWIS Y SALMAU<br>beibl.net<br>ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | newydd | 6 | delyn |
| 2 | Arglwydd | 7 | Brenin |
| 3 | Dduw | 8 | afonydd |
| 4 | Israel | 9 | llawen |
| 5 | byd | 10 | deg |
| Gallwch hefyd droi at beibl.net | | | |

***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS***








# CYFARFODYDD BLYNYDDOL

## 28-30 Mehefin

# CYFUNDEB DWYRAIN DINBYCH A FFLINT



### Beti-Wyn James

Cynhelir y cyfarfodydd eleni, dan lywyddiaeth y Parchg Beti-Wyn James, yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog gan ymweld â Chapel y Groes, Wrecsam ar gyfer yr Oedfa o Fawl.



### Aled Lewis Evans

Y Parchg Aled Lewis Evans fydd yn arwain y myfyrdodau Beiblaidd



### Anthony Reddie

Yr Athro Anthony Reddie, Rhydychen, fydd ein siaradwr gwadd. Ceir anerchiadau gan Gareth Ffowc Roberts (Cymdeithas Hanes) a Mabon ap Gwynfor AS (Rhwydwaith Heddwch)

**CYSYLLTWCH Â NI**

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Bro Abertawe, Abertawe, SA7 0AJ


01792 795888
www.annibynwyr.cymru

# CYFARFODODYDD BLYNYDDOL
# UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG 2023
# CYFUNDEB DWYRAIN DINBYCH A FFLINT
# 28-30 Mehefin 2023

**Annwyl Gyfeillion**

**Braint ac anrhydedd ydy'ch croesawu un ac oll i'r Undeb yma yn Rhosllannerchrugog a Wrecsam ar ran Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint eleni gan ddymuno pob bendith a llwyddiant i'r cyfan.**

**Dw i'n croesawu ar ran y naw eglwys sydd yn weddill o'r cyfundeb erbyn hyn, naw eglwys yn eu gwahanol amgylchiadau. Naw eglwys sy'n wynebu heriau a brwydrau amrywiol iawn, ond naw eglwys sy'n falch iawn o'ch croesawu atom.  Mae popeth wedi newid ers y bu'r Undeb yma gyda ni o'r blaen ac fe fydd hynny'n amlwg i chi o fod yn ein plith ddiwedd Mehefin eleni ond, 'ry'n ni yma o hyd'!**



**Mae'r trefniadau'n dod i'w lle ac fe fydd croeso a chynhesrwydd yn eich aros, ac ambell i ddigwyddiad gwahanol ac annisgwyl efallai. Yn ogystal â'r cyfarfodydd amrywiol, y gwrando, y siarad, a'r addoli, cewch gyfle i fynd draw i weld lleoliadau o ddiddordeb arbennig megis cofeb Morgan Llwyd yn Rhos-ddu, gweld ei enw ar restr offeiriaid eglwys San Silyn, ac efallai syllu ar fedd Elihu Yale y tu allan i'r eglwys yno. Fe fydd y tymor pêl-droed wedi dod i ben, felly gellwch alw draw i'r Cae Ras ond**



edrych o’r tu allan yn unig! Neu beth am ymweld â chanolfannau fel y Saith Seren, Tŷ Pawb, neu efallai dref ddifyr Llangollen?




Cynhelir y cynadleddau yn y Stiwt, Rhos, lleoliad hynod iawn a gobeithio y cewch gyfle i grwydro’r adeilad er mwyn cael blas ar yr hanes a’r awyrgylch. Bydd yr oedfa o fawl yng Nghapel-y-Groes, man addoli Ebeneser erbyn hyn, datblygiad fu o fudd a bendith i’r ddwy gynulleidfa sy’n cyfarfod yno ar y Sul.




Mae’r cyfundeb yn falch iawn o fedru noddi nifer o agweddau ar y cyfarfodydd ac edrychwn ymlaen yn fawr at gael eich cwmni dros y tridiau hyn.

Yn gywir

Trefor Jones-Morris
Cadeirydd y Pwyllgor Lleol



**MUNUD I FEDDWL**

**Bydd ein Gweinidog yn cyflwyno *Munud i Feddwl* (yn ystod rhaglen *Bore Cothi* ar *Radio Cymru* bob bore Mercher yn ystod mis Mai**

**Caniadaeth y Cysegr**

**Bydd Beti-Wyn yn cyflwyno’r rhaglen Caniadaeth y Cysegr ar Ddydd Sul, 28 Mai 2023 ar Radio Cymru.**

**Enillydd Tlws Capel Y Priordy eleni yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin am yr ymdrech orau yn Addysg Grefyddol yw Ffion Haf Thomas. Llongyfarchiadau mawr iddi.**



**PERERINDOD YR OFALAETH 2023**
**Dydd Sul 18 Mehefin 2023**

**Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan**




Bws yn gadael
*Sgwâr Bancyfelin am 9.30*
*Cana am 9.35*
*Heol y Prior am 10*
Coffi ar y ffordd. Dewch â phecyn bwyd i ginio
Oedfa yng Nghapel Penrhiw, Sain Ffagan, am 2
Swper ar y ffordd adref
*Pris y diwrnod i'w gadarnhau*
*Enwau ar y daflen yn y cyntedd neu i Beti-Wyn*

# STORI LASARUS GAN
# PETER HUGHES GRIFFITHS



Yn dilyn pregeth ardderchog Y Parchedig Ainsley Griffiths un bore Sul yn ddiweddar yn Y Priordy am yr Iesu yn codi Lasarus o'i fedd, fedrwn i ddim llai na chofio am y stori yr oeddwn i yn arfer ei dweud wrth arwain Nosweithiau Llawen ar hyd a lled Cymru flynyddoedd lawer yn ôl.

A dyma hi:

Roedd Ifan Jones, ar ôl ymddeol, yn byw yn Aberystwyth, ond, roedd e'n hoffi dod am ambell benwythnos nôl i Gaerfyrddin a galw gydag aelodau o'r teulu a'i hen ffrindiau.  Wedyn, ar y Sul roedd e'n hoffi ymuno yn y gwasanaethau yng nghapeli Cymraeg y dref. A'r tro arbennig hwn fe aeth e i Gapel Y Priordy yn y bore. Yno yn pregethu roedd yr hen gyfaill y Parchedig Ezeiah Jones, ac fe bregethodd ar y testun -
***ac yr oedd Lasarus yn wael iawn***

Penderfynodd Ifan Jones fynd i'r gwasanaeth yng Nghapel Y Tabernacl yn y prynhawn ac er mawr syndod iddo, pwy oedd yno'n pregethu ond neb llai na'r Parchedig Ezeiah Jones, a thestun ei bregeth --
***ac yr oedd Lasarus yn wael iawn***

Doedd dim amdani ond mynd i wasanaeth yr hwyr yng Nghapel Heol Awst ac ymuno gyda'r gynulleidfa yno.  A phwy oedd yno yn y pulpud yn pregethu?  Y Parchedig Ezeiah Jones unwaith eto, a thestun ei bregeth -
***ac yr oedd Lasarus yn wael iawn***

Y bore wedyn dyma Ifan yn mynd i lawr i orsaf bysiau Caerfyrddin erbyn naw o'r gloch i ddal ei fws nôl i Aberystwyth, a phwy gwrddodd e yn yr orsaf fysiau yng nghanol prysurdeb y bore ond y Parchedig Ezeiah Jones, ac medde fe wrth Ifan:

'Wel, wel! Mae'n ofnadwy o brysur yma'r bore 'ma. Tybed i ble mae'r holl bobl ma'n mynd?'



Ac medde Ifan: 'Falle bo nhw'n mynd i angladd Lasarus, achos roedd e'n wael iawn ddoe!'

## AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



# DIWRNOD RHYNGWLADOL NYRSYS

***12 Mai 2023***



Mae Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys yn cael ei ddathlu ledled y byd ar 12 Mai bob blwyddyn i nodi cyfraniad nyrsys i gymdeithas. Mae'n digwydd ar ddiwrnod geni Florence Nightingale (1820-1910) yn Fflorens, yr Eidal. Daeth hi'n nyrs enwog o ganlyniad i'w gwaith adeg rhyfel y Crimea. Ym 1860 wrth sefydlu ysgol nyrsio St Thomas, Llundain sicrhaodd fod seiliau nyrsio proffesiynol yn cael eu gosod. Mae Amgueddfa Florence Nightingale ar dir Ysbyty St Thomas sy'n sefyll ar lannau'r Tafwys yng nghalon Llundain. Saif cofgolofn Florence yn Waterloo Place yn Llundain.



Nyrs enwog arall a fu'n gweithio ochr yn ochr â Florence Nightingale yn Rhyfel y Crimea oedd Elizabeth "Betsi" Cadwaladr (1789-1880) Caiff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei enwi ar ei hôl. Ond doedd dim llawer o Gymraeg rhwng Florence a Betsi, mae'n debyg!



Beth bynnag, mae nyrsys yn gwneud cyfraniad hanfodol i wella bywydau unigolion a'u teuluoedd, iechyd a lles cymunedau cyfan a'r boblogaeth ehangach. Mae Diwrnod Rhyngwladol Nyrsys felly'n gyfle i ddathlu gwaith nyrsys sy'n rhoi cymaint i helpu eraill. Mae'n siŵr bod dyled gan amryw ohonom yn y Priordy i nyrsys am eu gofal a'u caredigrwydd.




Bob blwyddyn mae'r Cyngor Nyrsio Rhyngwladol yn sefydlu thema wahanol ar gyfer y diwrnod. Y Thema ar gyfer 2023 yw *Ein Nyrsys. Ein Dyfodol.*

Mae'r ymgyrch yn amlinellu dymuniad y Cyngor Nyrsio Rhyngwladol ar gyfer nyrsio yn y dyfodol er mwyn dod i'r afael â heriau iechyd y byd a gwella iechyd y byd i bawb, Mae angen dysgu oddi wrth wersi'r pandemig a'u trosi'n weithredoedd ar gyfer y dyfodol fel y bo nyrsys yn cael eu hamddiffyn, eu parchu a'u gwerthfawrogi. Yn ogystal â dysgu gwersi i gynnal nyrsys, mae'r ymgyrch yn ystyried sut y gellir cryfhau ein systemau iechyd er mwyn cwrdd â gofynion iechyd y byd.

Mae gwahanol wledydd yn dathlu'r diwrnod mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, yn Awstralia mae'n arfer cyhoeddi Nyrs y Flwyddyn yn y wlad honno ar y diwrnod hwn. Yn Tsieina, mae nyrsys weithiau'n dod ynghyd i adrodd llw Florence Nightingale.  Yn yr Unol Daleithiau mae'n nhw'n dathlu'r diwrnod fel rhan o Wythnos Genedlaethol y Nyrsys sy'n digwydd rhwng 6-12 Mai. Yng Ngwledydd Prydain mae gwasanaeth yn Abaty Westminster yn Llundain.  Ar ben hynny yng Nghymru cynhelir gwahanol ddathliadau, fel boreau coffi a gwasanaethau ac ati i ddathlu'r diwrnod.



Dymunwn  Ddiwrnod Rhyngwladol Nyrsys hapus i'r holl nyrsys drwy'r byd sy'n gweithio mor galed i ofalu amdanom!

**NOSON GOMEDI**
***gydag***
**ELIS JAMES**
**Nos Iau - 11 Mai – 8.00**
**Lyric Caerfyrddin**
**Cyswllt: 0345 226 3510 / theatrausirgar.co.uk**
**Elw at Urdd Gobaith Cymru**





**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

## Dyfal Donc…?!!




**Cyhoeddwyd adroddiad ar wefan Deoniaeth Rhydychen yn ystod Ebrill dan y pennawd *Presenoldeb mewn Eglwysi*: *Tueddiadau, Patrymau a Phosibiliadau Ôl-Covid* yn seiliedig ar ddata pum deoniaeth, sef Caergaint, Caer, Guilford, Rhydychen a Leeds.**

**Mae'r adroddiad yn cymharu data presenoldeb mewn eglwysi yn Hydref 2022 â rhai yn Hydref 2019 ac yn awgrymu mai torri i lawr ar oedfaon yw achos y dirywiad mewn presenoldeb.**

**Mae'r adroddiad yn gweld fod 'cyswllt cryf' rhwng darpariaeth lai a phresenoldeb llai. Mae'r eglwysi a arhosodd ar lein ac sydd heb dorri i lawr ar eu gwasanaethau wedi adennill lefelau presenoldeb 2019. Dim ond yn yr achosion hynny ble mae darpariaeth yr eglwysi wedi crebachu mae presenoldeb wedi lleihau.**

***Mae hanes yr adroddiad yn llawn yn y Church Times (3 Ebrill 2023).***



***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Tomos Morgans a Betsan James am y lluniau'r mis hwn.



# DYLETSWYDDAU

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Mai | | Mehefin | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Elis Jones | | Gareth Gravell | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Rhyswen Michael | Mehefin | 4 | Miriam Wyrwoll |
| | 14 | | | 11 | |
| | 21 | Mair Meredith | | 18 | Pererindod |
| | 28 | | | 25 | Betsan James |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Bore | Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans |
| Mehefin | 4 | Bore | Betsan James a Rachel Davies |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Ffion Parsons | Mehefin | 4 | Delyth Gwawr Davies |
| | 14 | Y Plant | | 11 | Y Plant |
| | 21 | Tim Hayes | | 18 | Pererindod |
| | 28 | Luned V Thomas | | 25 | Alison Parsons |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | Philip Jones | Mehefin | Huw Michael |

***EIN*** cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig am Elfed Lewis, Llion Evans, Ann Bowyer a Thelma Evans. Dymunwn yn dda i bob un ohonoch.

Ar benwythnos y Pasg, anogodd Beti-Wyn, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, bennaeth yr Eglwys Uniongred yn Rwsia i ddefnyddio'i ddylanwad i ysgogi cadoediad yn y rhyfel yn Wcráin. Gwnaeth hynny hefyd, unwaith eto yn rhinwedd ei swydd gyda'r Undeb, mewn cyfweliad â Dylan Jones ar **Y Post Prynhawn** ar **Radio Cymru.**






Bu Heledd ap Gwynfor yn westai ar **Heno** ynghyd â'r actor Rhodri Evan yn trafod y ffilm **Y Sŵn**. Mae Heledd yn wyres i Gwynfor Evans a Rhodri oedd yn chwarae rhan ei thad-cu yn y ffilm. Cawsom ymateb Heledd i'r portread o'i thad-cu. Cafodd y ffilm am ddechreuadau S4C ei dangos ar y sianel ac mewn nifer helaeth o sinemâu.

Diolch i Tomos Morgans am greu Cwis Pasg ar lein ar gyfer y Priordy dan nawdd Rhaglen Arloesi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Da iawn ti!

Bu Carys Edwards (Cyfarwyddwr a Chynhyrchydd) yn sôn am Brosiect 23 ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2023 ar **Heno** ar **S4C** – yn arbennig y cyfle a gafodd disgyblion o unedau arbennig y sir i greu cân am 'Jac Tŷ Isha' gyda Neil Rosser a'r band 'Pwdin Reis' ac yna recordio'r cyfan yng Nghanolfan **S4C** yr Egin. Cafwyd gair hefyd â Tudur Dylan Jones ar **Heno** ar **S4C** yn ystod y noson yng Ngwesty Parc y Strade Llanelli i ddadorchuddio Coron a Chadair yr Eisteddfod.

Da iawn Elin Wyn ar gwblhau hanner marathon Llundain yn llwyddiannus yn ddiweddar! Hefyd i Aled Evans (a gafodd gyfweliad ar **Heno** ar **S4C**), Non Gwilym (a gafodd gyfweliad ar **Radio Cymru**) a Catrin Davies ar gwblhau marathon Llundain.

***A'N*** llongyfarchiadau mawr i:

- Tina ac Emlyn Schiavone ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganwyd gefeilliaid i Eleri ac Aled Schiavone, Cwm-gïedd, sef Mared ac Elgan, yn Ysbyty Singleton, Abertawe, ar 10 Ionawr 2023.



- Rita Brown ar ddod yn hen-famgu unwaith eto. Ganed Miri Gwilym Waldron i Manon a Russell ar 22 Mawrth 2023 yn UCLH.



- Hilary a Phil Kynaston ar ddathlu eu priodas aur ar 21 Ebrill 2023.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Cydymdeimlwn ag Elaine Davies ar golli'i brawd yng nghyfraith, Thomas Glyn Jones, Llanymddyfri ar 31 Mawrth 2023. Meddyliwn am y plant, Hugh a Helen a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.**

**Estynnnwn ein cydymdeimlad hefyd â Sulwyn a Glenys Thomas ar golli cyfnither Sulwyn, sef Nichola Heywood-Thomas, Caerdydd, y ddarlledwraig a'r cyflwynydd teledu adnabyddus, ar 6 Ebrill 2023. Meddyliwn am ei phlant a'i thad, Yr Athro John Heywood-Thomas, (un a fu'n cynnal oedfaon yn y Priordy) a'r teulu cyfan yn eu galar a'u hiraeth.**

**OPRA CYMRU**
***yn cyflwyno***
**Cosi Fan Tutte**
**Lyric – Nos Iau 18 Mai 2023**
**Cyswllt: 0345 226 3510 / theatrausirgar.co.uk**



# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **7** | **Bore** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **14** | **Bore** | Gwasanaeth Dinesig y Maer a Chwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| | **21** | **Bore** | Ein Gweinidog | |
| | **28** | **Bore** | Y Parchedig Siân Elin Thomas | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **4** | **Bore** | Ein Gweinidog | **C** |
| | **11** | **Bore** | Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog | |
| ***Sul y Tadau*** | **18** | **Bore** | Pererindod yr Ofalaeth | |
| | **25** | **Bore** | Nigel Davies | |



**GWASANASETH DINESIG Y MAER**
**14 Mai 2023**
**Darpar Faer ein Tref yw'r Cynghorydd Wyn Thomas a bydd Beti-Wyn yn Gaplan iddo. Ein llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt a dymunwn bob bendith ar eu gwaith.**



| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant**<br>**OD – Oedfa Deulu** | | | | | | | |
| **Mai** | | | | **Mehefin** | | | |
| **7** | **14** | **21** | **28** | **4** | **11** | **18** | **25** |
| **Erw Hir** | **CP** | **✓/ PIP** | **-** | **✓** | **CP** | **-** | **✓ / PIP** |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

| | |
|---|---|
| **Apêl y Mis**<br><br>**Cymorth Cristnogol** | wythnos cymorth cristnogol 14-20 MAI |